

# LLANLLECHID

## Gwerthusiad a Chynllun Rheolaeth Ardal Gadwraeth

Chambers Conservation Ltd,

# Argraffiad

Argraffiadau: - Drafft Ymgynghoriad Cyhoeddus

**Chambers Conservation Ltd**
Cofrestrwyd yng Nghymru a Lloegr Rhif 09787239
Cyfeiriad Cofrestredig:  Studio 2, Mercury House, High Street, Tattenhall, CH3 9PX
[www.chambersconservation.com](http://www.chambersconservation.com)

# Cynnwys

**Y Rhan Gyntaf,** Gwerthusiad Ardal Gadwraeth.

1.0 Cyflwyniad
- 1.1 Sut mae Defnyddio'r Ddogfen hon
- 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr Ardal Gadwraeth

2.0 Crynodeb o Ddiddordeb Arbennig
3.0 Llinell Amser Hanesyddol
4.0 Dadansoddiad Gofodol
- 4.1 Ffurf a Threfn
- 4.2 Golygfeydd Allweddol
- 4.3 Mannau Gleision a Choed

5.0 Cymeriad
- 5.1 Golwg Cyffredinol
- 5.2 Cymeriad Pensaernïol
- 5.3 Deunyddiau a Manylion
- 5.4 Ffiniau
- 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill

6.0 Asedau Hanesyddol
- 6.1 Dynodedig
- 6.2 Annynodedig

7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.
8.0 Hanesion Cudd (Dichonoldeb Archeolegol)
9.0 Asedau Dynodedig Eraill
10.0 Bioamrywiaeth

**Yr Ail Ran**, Cynllun Rheoli'r Ardal Gadwraeth.


1.0 Dadansoddiad CGCB Cryno
2.0 Deall y Materion
2.1 Cyflwr
2.2 Adeiladau mewn Perygl
2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.
3.0 Rheolaeth Gadarnhaol
3.1 Asesu Ffiniau
3.2 Diogelwch Deddfwriaethol
3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth
3.4 Cynaliadwyedd
3.5 Bioamrywiaeth
4.0 Ymgynghori


**Atodiadau**


A. Ffynonellau



# Y RHAN GYNTAF – GWERTHUSIAD ARDAL GADWRAETH

# 1.0 Cyflwyniad

## 1.1 Sut mae defnyddio'r ddogfen hon

1.1.1 Dylid darllen yr Arfarniad Ardal Gadwraeth yma ochr yn ochr â'r ddogfen ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio WEBLINK***, y gellir ei lawrlwytho o wefan y Parc Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys eglurhad am bwrpas a methodoleg yr Arfarniad hwn, ynghyd â chyflwyniad cyffredinol i hanes, tirwedd, adeiladau a ffurfiau anheddiad a'r cyd-destun cynllunio a deddfwriaethol.

1.1.2 Yn ychwanegol at y Cynllun Rheoli sy'n dod gyda'r arfarniad ardal, paratowyd dogfen arall ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK*** er mwyn ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd presennol, rhoi cyngor ymarferol ar sut i wella perfformiad ynni adeiladau traddodiadol sydd ag arwyddocâd lleol heb niweidio'u cymeriad arbennig na'u perfformiad technegol.

## 1.2 Golwg Cyffredinol ar yr ardal gadwraeth

1.2.1 Mae cwmpas ardal yr astudiaeth yn cael ei ddiffinio'n rhannol gan ffin yr Ardal Gadwraeth (gweler Ffigur 02), ond cynhwyswyd yr ardal o gwmpas (yn cynnwys yr ardal dirwedd gyfagos) er mwyn deall y cyd-destun ehangach a phenderfynu a fyddai unrhyw newidiadau i'r ffin yn briodol.

**Lleoliad a Gosodiad**

1.2.2 Pentref bychan yw Llanllechid 1.5km i'r gogledd o Fethesda a 5km i'r de-ddwyrain o Fangor, ar y ffordd o Dal-y-Bont i Fethesda.


1.2.3 Eistedda'r pentref i'r gorllewin o Foel Faban, a Moel Wnion, ar diroedd a adanbyddiar fel yr Arfonian Plateau[1], iseldir eang gweddol donnog sy'n codi o'r arfordir i tua 200m AOD. Cefndir y pentref yw cefnlen ucheldiroedd uchel Eryri a Chwarel y Penrhyn, sy'n amlwg yn y golygfeydd i'r de.

1.2.4 Dyddiad dynodi: 23 Mehefin 1977.



**01** Eglwys Sant Llechid o ger Afon y Llan

[1] Cyfoeth Naturiol Cymru, Asesiad Cymeriad Tirwedd, 2014, NLCA03 Arfon.




Conservation Area
1:2500 @ A4

**02** Cynllun o'r Ardal Gadwraeth (© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 2.0 Diffiniad o Ddiddordeb Arbennig

## 2.1 Crynodeb o'r Diddordeb Arbennig

2.1.1 Mae Llanllechid wedi'i leoli mewn tirlun hanesyddol cyfoethog iawn lle ceir tystiolaeth o weithgaredd dynol yn dyddio'n ôl o leiaf dau fileniwm.


2.1.2 Mae gosodiad tirlun ehangach Llanllechid yn syfaenol i ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae golygfeydd tuag at odreon gorllewinol y Carneddau a gweithgaredd diwydiannol gweladwy'r diwydiant llechi tuag at Elidir  Fawr yn elfennau pwysig ac yn bwysig i'r naws am le. Y golygyfedd tirlun lleol o amgylch yr eglwys sy'n cysylltu'r anheddiad cynharaf  â'r gosodiad hwn.

Disgrifir y golygfeydd hyn yn benodol yn ddiweddarach yn yr arfarniad (lle cânt eu graddio yn ôl pwysigrwydd). Y prif olygfeydd sy'n dangos y berthynas hon yw:

- Yr olygfa tuag at Foel Wynion a'r Gyrn ar draws hen domenni llechi.
- Golygfeydd ym mhant Afon-y-Llan ac oddi yma i eglwys Sant Llechid.
- Golygfeydd o'r pentref ar draws y tir pori agored at eglwys Sant Llechid, gyda waliau cerrig a hen strwythurau amaethyddol yn y tu blaen.
- Golgyfeydd o'r Deial Haul yn y fynwent tuag at Elidir Fawr a'r Garn ar draws Bethesda.
- Yr olygfa'n ymagor i ddangos y pentref yng nghyd-destun Chwarel y Penrhyn.

2.1.3 Ar wahân i eglwys Sant Llechid, gwelodd treftadaeth adeiledig Llanllechid gryn dipyn o newid ar ddiwedd yr 20fed a dechrau'r 21ain ganrif. Fodd bynnag, mae'r pentref wedi osgoi unrhyw ddatblygiadau modern sylweddol ac mae patrwm yr adeiladau a'r ffurf adeiledig yn glir iawn. Mae'r elfennau allweddol yn cynnwys:

- Eglwys Sant Llechid, gyda'r fynwent a'r berthynas ag un o'r anheddau cynharaf, Tai Fynwent, yr elfennau mwyaf cyfan o dreftadaeth adeiledig Llanllechid.



**03** Ysgythriad cynnar o'r eglwys, yn fuan wedi'i chwblhau (c.1846).



**04** Golygfeydd tua Moel Wynion a'r  Gyrn (2021)

- Cyfosodiad yr hen Red Lion, yr Efail a'r adeiladau cysylltiedig, i'r Gogledd o'r eglwys. Mae ffurf adeiledig y grŵp cynnar hwn yn dal yn eglur, er gwaethaf newidiadau diweddarch i'r manylion.
- Cyfosodiad Yr Hen Bwl, y caban ffôn a'r grîn bychan.

2.1.4 Mae'r berthynas rhwng strwythurau adeiledig a mannau agored yng nghanol y pentref yn bwysig hefyd. Ceir diddordeb arbennig yn sgil y berthynas rhwng y ddau, yn aml yn ffurfio rhan o'r golygfeydd a nodwyd yn barod. Mae'r prif elfennau'n cynnwys:

- Afon fechan Afon-y-Llan a pherthynas yr ardal hon ag eglwys Sant Llechid a Tai Fynwent.
- Y borfa agored fel gosodiad i'r eglwys a hefyd y golygfeydd yn ôl i'r pentref o'r fynwent, mae ansawdd y tywyllwch a'r goleuni drwy'r coed yw yn y fynwent yn bwysig hefyd.

# 3.0 Llinell Amser Hanesyddol

**Cynhanes**

3.1.1 Ymdrinnir â hanes Llanllechid yn fanwl mewn llefydd eraill, rhoi cyd-destun yn unig yw bwriad y crynodeb isod.

3.1.2 Eistedda Llanllechid mewn tirlun sy'n cynnwys amrywiaeth eang o olion archeolegol sy'n dangos defnydd a gweithgaredd ar y tir o'r cyfnod cynhanes. Ar y llethr uwchben Llanllechid mae arwyddion eang o aneddiadau cytiau a chaeau. Ceir olion hefyd o'r hyn a allai fod yn eangderau yr un mor fawr ar y llethrau is o dan Llanllechid ac o amgylch Tregarth. Mae rhywfaint o'r ardaloedd hyn, ar y tir uwch ac is yn henebion gwarchodedig, yn arbennig i'r gorllewin o Corbri, Gwersyll Rhiw Coch (i'r gogledd o'r pentref) a Coed Uchaf.

3.1.3 Roedd anheddiad helaeth erbyn y cyfnod canoloesol, er y byddai hefyd bori ar dir comin eang a thir heb ei wella, yn gymysg ag anheddiad a chaeaeu wedi'u trin. Mae'n edrych yn debyg y byddai'r bont dros Afon y Llan, ac felly'r trefniant cyffredinol wedi bod yn eu lle, o bosibl yn dylanwadu ar leoliad yr eglwys, y gwyddys ei bod yno erbyn 1254.



**05** Edrych draw tua'r pentref o'r fynwent (2021)



**06** Map Degwm, 1839, sylwer ffiurf 'U' yr eglwys gynharach.

Y Canoloesoedd

3.1.4 Mae seiliau, gweddillion o'r anheddiad canoloesol gwasgaredig i'w gweld ar ymyl y pentref. Nid oedd yr un yn adnabyddus o'r tu mewn i'r ardal gadwraeth, er yn ystod gwaith maes a wnaed gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd yn 2004, gwelwyd cloddwaith yn y cae i'r de o'r eglwys a all fod yn ganoloesol – nid ydynt yn cael eu dangos ar fap 1768 na rhai diweddarch, felly mae'n bosibl eu bod yn dyddio o cyn y 18fed ganrif.[2]

3.1.5 Mae seiliau eglwys gynharach i Sant Llechid i'w gweld tuag gogledd-ddwyrain y fynwent. Chwalwyd hon yn y 19eg ganrif pan adeiladwyd yr eglwys brsesennol.

*3.1.6* Disgrifiwyd yr eglwys ganoloesol fel *'adeilad hynafol hir ac isel yn cynnwys corff a changell, gyda chapel bach neu fetws ar yr ochr ddeheuol.8 Cofnododd tirlyfr o 1831 ddimensiynau'r hen eglwys ganoloesol fel 49troedfedd o hyd a 48 troedfedd o led i'r corff, a 20tr o hyd a 48tr o led i'r gangell. 9 Roedd y capel yn 15tr wrth 15tr o led. Roedd gan yr eglwys lawr fflags carreg ac roedd yn dal 214 o addolwyr*[3] Adeiladwyd estyniad ar yr ochr ddeheuol yn y gorllewin, a'i ddefnyddio fel ysgoldy, a rhoddodd hyn siâp 'U' i gynllun yr eglwys, fel y dangosir ar Fap Degwm 1839.

18fed & Dechrau'r 19eg Ganrif


3.1.7 Ar fap Ystâd y Penrhyn o 1768 ceir y dystiolaeth weledol gynharaf o gynllun yr anheddiad[4]. Ond mae gwahaniaethau rhwng hwn a map Degwm 1839, mae'n debyg oherwydd addasu map y Penrhyn yn ddiweddarach. Yn 1768 mae natur yr anheddiad yn dal yn wasgaredig, gyda dim ond ychydig o adeiladau ger yr eglwys ac adeilad ar safle diweddarach Yr Hen Bwl i'r de.

3.1.8 Erbyn 1855 roedd clwstwr o adeiladau wedi datbygu o amgylch tro yn y lôn, gyda melin ddŵr, Tafarn y Red Lion ac efail, gydag annedd arall gerllaw. Yn ôl traddodiad lleol dyma leoliad y ffair ddefaid flynyddol a gynhelid bob mis Hydref.[5]

3.1.9 Yn ogystal, roedd clwstwr o adeiladau wedi'u codi lle mae'r lôn yn rhannu i'r De a'r capel Methodist wedi'i sefydlu nesaf atynt erbyn 1783. Erbyn 1855 roedd adeiladau eraill wedi'u hychwanegu.

3.1.10 Yn ôl Hyde-Hall[6], roedd mwyafrif helaeth yr ardal, o gyfnod diwedd y canoloesoedd, yn eiddo i deulu Williams Cochwillan, a ddaeth wedyn i

[2] Arfarniadau Ardal Gadwraeth drafft, CgMs ac Ymddiredolaeth Archeolegol Gwynedd, 2004 a 2011.
[3] Clarke, M.L. 1961, Church Building and Church Restoration in Caernarvonshire during the 19th Century, Transactions CHS, vol.22 (Pp.20-31).
[4] Archifau Prifysgol Bangor, Penrhyn, MSS 2203
[5] Anon. The National Gazetteer of Great Britain and Ireland (1868)
[6] Hyde-Hall, Edmund, A description of Caernarvonshire (1809-1811), p.91.




**07** Rhan o'r Map AO, Tirfesuriad 1888.



**08** Golygfa o Eglwys Sant Llechid, c.1900.

ddwylo teulu'r Penrhyn. Y prif dirfeddianwr arall oedd ystâd Coetmor, ond caffaelwyd y tiroedd hyn hefyd gan Ystâd y Penrhyn pan y'u gwerthwyd yn dilyn methdaliad yn 1801. Mae map degwm plwyf Llanllechid yn 1839 yn cofnodi fod y rhan fwyaf o Lanllechid yn eiddo i'r Arglwydd Penrhyn, roedd gan Iarll Egmont gryn dipyn o ddaliadau ar ochr ddwyreiniol y pentref ar gyffordd y ffordd.

19eg Ganrif

3.1.11 Mae'r map degwm yn dangos chwe adeilad o fewn yr ardal ddwyreiniol hon, sy'n cynnwys Tan Hwfa a Chapel Peniel.

3.1.12 Roedd yr anheddiad yn cael ei ddisgrifio fel pentref erbyn troad y 19eg ganrif gan Hyde-Hall a William William a ysgrifennodd yn 1806 fod *'a fair for sheep held at the village on the 26th October'* each year.

3.1.13 Gydag ehangu'r chwareli llechi, ehangu wnaeth y boblogaeth o amgylch Llanllechid yn ystod y 19eg ganrif. Tyfodd aneddiadau newydd a rhai a ehangwyd yng Nghae-llwyn-grydd (Rachub), Bethesda, Tregarth a Mynydd Llandegai yn sydyn ond arhosodd Llanllechid yn gymharol wledig. Mae'n debyg fod hyn oherwydd mai tir y Penrhyn oedd yn bennaf, ac roedd eu pentrefi chwarelyddol nhw yn gorwedd ymhellach i'r de-ddwyrain.

3.1.14 Parhaodd Llanllechid yn anheddiad gwledig drwy'r 19eg ac i mewn i'r 20fed ganrif, yn darparu gwasanethau lleol oedd yn cynnwys siopau, dwy dafarn, eglwys y plwyf a'r capel Methodist. (Ffigur 07).

3.1.15 Dymchwelwyd eglwys ganoloesol Sant Llechid yn 1846, pan adeiladwyd yr eglwys newydd, wedi'i dylunio gan Henry Kennedy. Nid oedd pawb yn cymeradwyo'r cynlluniau, a gyhoeddwyd yn 1843, gyda'r clochdwr yn cael ei ddisgrifio fel 'Eidalaidd, nid Normanaidd' ac arddull gyffredinol yr eglwys yn 'baganaidd adfywiedig'. Cafwyd estyniad sylweddol i'r de-ddwyrain o'r fynwent gyntaf, lle'r adeiladwyd yr eglwys newydd (Ffigur 03).

20fed Canrif

3.1.16 Cafodd cnewyllyn yr anheddiad o gwmpas y Red Lion ei anwybyddu pan adeiladwyd ffordd newydd yn yr 1960au. Mae'r hen ffordd yn dal ar agor, ac mae'n caniatau mynediad i'r tai yno. Bellach addaswyd y dafarn a'r efail yn dai, felly hefyd y Bull ar ochr ddeheuol y pentref.

# 4.0 Dadansoddiad Gofodol

## 4.1 Ffurf a Threfn yr Anheddiad

4.1.1 Mae'r mapiau cynnar, yn cynnwys map degwm 1839, yn dangos dwy



**09** Tan Hwfa o'r gogledd orllewin (2021).



**10** Sant Llechid o'r fynwent. (2021)

agwedd bendant ar yr anheddiad. Yr eglwys a'r llan cysylltiedig, nesaf at lle mae Afon Llan yn croesi ger y ffordd, ac i'r de, lle sefydlwyd y darafn a'r capel lle mae'r ffyrdd yn fforchio i Bant Hwfa a'r brif ffordd i Rachub.

4.1.2 Mae'r ffurf anheddiad hwn yn dal i fod tra'n debyg heddiw, er y bu datblygiad rhuban wedyn ar hyd y ffordd a datblygiad cnewyllol o amgylch cyffordd y ffordd. Daeth aliniad ffordd diweddarach (ar ôl 1962) i'r dwyrain sydd yn pasio heibio'r clwstwr o adeiladu i'r gogledd o'r eglwys, a oedd yn cynnwys yr efail yn wreiddiol.

## 4.2 Golygfeydd allweddol

4.2.1 O fewn yr ardal gadwraeth mae nifer o olygfeydd allweddol sy'n darlunio naill ai ddatblygiad hanesyddol y pentref, sy'n caniatáu gwerthfawrogi nodweddion arbennig neu strwythurau allweddol neu sy'n rhoi dealltwriaeth gywir o'i ddatblygiad oddi mewn i'r tirlun ehangach. Mae golygfeydd eraill yn gipolygfeydd pwysig, rhwng adeiladau, neu at nodweddion allweddol sy'n cyfrannu at ddealltwriaeth a chymeriad yr ardal.

4.2.2 Mae'r golygfeydd naill ai'n statig (golygfa benodol i un cyfeiriad) neu'n ddynamig, yn cwmpasu maes golygfa o bwynt arbennig.

4.2.3 Mae'r rhain fel a ganlyn (gweler Ffig 14):

**A** Golygfa ddynamig tuag at Foel Wynion a'r Gyrn ar draws hen domenni llechi.

**B** Cipolygfeydd tuag at Tai Fynwent.

**C-D** Golygfeydd ym mhant Afon-y-Llan.

**E** Golygfa yn ôl i weddlun De Ddwyrain Eglwys Sant Llechid.

**F** Golygfa ddynamig o'r Deial Haul tuag at Elidir Fawr a'r Garn ar draws Bethesda.

**G** Golygfa drwy'r llwybr coed yw tuag at Eglwys Sant Llechid

**H** Golygfa ddynamig ar draws tir pori at glochdwr Eglwys Sant Llechid.


**I** Golygfa ddynamig yn ymagor i ddangos y pentref yng nghyd-destun Chwarel y Penrhyn.



**11** Golygfa o'r deial haul tua Elidir Fawr a'r Garn. (2021).




**12** View back to St. Bodfan's from the Llwybr Llechi Eryri. (2021)




Key Views
1:2500 @ A4

**14** Llanllechid Conservation Area, Key Views (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)




Trees
1:2500 @ A4

**15** Llanllechid Conservation Area, Trees and Tree Preservation orders (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)

## 4.3 Mannau Gleision a Choed

4.3.1 Mae natur datblygiad Llanllechid yn golygu fod y mannau glas yn anffurfiol ac amaethyddol eu natur, ar wahân i'r fynwent a'r grîn bychan gyferbyn â'r Hen Bwl.

4.3.2 Mae gosodiad amaethyddol yr eglwys yn bwysig i'r cymeriad, gyda thystiolaeth o waith amaethyddol cynharach ac mae'n cynnig cefndir dymunol i'r eglwys. Mae'r pant o dan yr eglwys, sydd bellach yn rhan o Lwybr Llechi Eryri, yn llwybr coediog hyfryd o ddŵr yn rhaeadru a chipolygfeydd tuag at Sant Llechid a'r tirlun ehangach y tu hwnt. Mae'r giât haearn ar ymyl yr ardal gadwraeth wedi'u gwneud yn lleol ac mae'r giât mochyn rhybedog yn dyddio o ddiwedd yr 19eg ganrif.

4.3.3 Mae gan y fynwnt lwybr arbennig o goed yw, sy'n cynnig coridor tywyll llawn cymeriad gyda golygfeydd at y golau a'r tirlun y tu hwnt. Mae hyn yn arbennig o effeithiol gyda'r manylion cain a gedwir ar y cerrg beddi llechen gerllaw.

4.3.4 Dangosir grwpiau neilltuol eraill o goed ar y cynllun yn Ffig 15, mae'r rhain yn cynnwys:

- Y llwybr coed yw yn y fynwent a'r coed o gwmpas.
- Grwpiau o goed ar hyd ffiniau'r ffordd gynharach, a choed mawr unigol wrth y fynedfa i'r pentref (Derw).

# 5.0 Cymeriad

## 5.1 Golwg cyffredinol

5.1.1 Mae cymeriad cyfoes Llanllechid yn cysylltu'n gryf â'i osodiad ehangach yn y tirlun. Newidiwyd yr adeiladau, ac eithrio eglwys Sant Llechid, yn ddybryd, ond erys y berthynas rhwng y pentref a'r tirlun sy'n ei amgylchynu ac sydd wedi'i siapio yn economaidd ac yn ddiwylliannol.

5.1.2 Yr eglwys yw prif nodwedd y pentref, mae golygfeydd tua'r eglwys yn rhan gynhenid o'i rinwedd arbennig. Ychydig sydd wedi newid yn y cipolygon o'r grîn a Thy'n Llan ar draws y borfa a'r waliau cerrig o'u cwmpas, ar wahân i faint y coed, ers y 19eg ganrif.



**16** Giât mochyn llawn cymeriad yn y pant y tu ôl i'r eglwys. (2021).



**17** Cerrig beddi llechen yng nghysgod y goeden ywen. (2021)

5.1.3 Mae cysylltiadau gweledol â chwarel y Penrhyn yn gyfeirnodau pwysig, yn hanesyddol, yn ddiwylliannol ac yng nghyd-destun cymeriad tirlun cyfoes y pentref. Mae'r olygfa'n agor allan i'r de yn syth ar ôl y fynwent. Mae'r chwarel ar y llethrau o dan Elidir Fawr yn tra-arglwyddiaethu ar y cefndir.

5.1.4 Er bod llawer wedi newid o safbwynt adeiladau a deunyddiau, mae'r grîn bychan y tu allan i'r Hen Bwl, gyda'r caban ffôn rhestredig, yn dal i roi cyd-destun i'r nodweddion a ffurfiodd gnewyllyn y pentref cynnar yn yr ardal hon.

## 5.2 Cymeriad Pensaernïol

5.2.1 Yr adeiladau domestig cynharaf yn Llanllechid yw Tai Fynwent a Than Hwfa, anheddau un llawr isel o gryn oed, yn tarddu mae'n debyg o'r 18fed ganrif. Mae'r rhain i'w gweld ar fapiau'r 1840au, er nad yw Tai Fynwnet yn amlwg iawn ar y map degwm. Dyma'r unig adeiladau y gellir gweld iddynt gael eu hadeiladu o'r meini geirwon crwn cynnar (er bod Tan Hwfa wedi'i rendro erbyn hyn) ac maent yn dystiolaeth o gymeriad cynnar Llanllechid. Mae gosodiad Tan Fynwnt yng nghyd-destun y fynwent a'r llwybr ar hyd Afon y Llan yn arbennig o werthfawr, ac mae wedi cadw ffenestri adeiniog o'r 19eg ganrif. Yn anffodus ychwanegwyd ffensys anaddas ers arfarniad drafft 2011, sy'n cuddio'r adeilad o'r fynwent.

5.2.2 Mae'r casgliad i'r gogledd o'r ardal gadwraeth, o gwmpas yr hen Red Lion (bellach Fferm y Red Lion), ynghyd â'r hen efail a'r bythynnodd o'r 19eg ganrif (1 a 2 Green Cottage) yn werthfawr fel grŵp, ac er bod y ffenestri wedi'u newid, maent yn cadw graddfa, cymesuredd a manylion hawdd eu hadnabod yn cynnwys cyrn simdde sylweddol. Yn anffodus codwyd annedd modern i'r gorllewin o fferm y Red Lion, ac mae'n ymddangos fod hwn wedi dinistrio'r rhan fwyaf o weddillion yr hen felin.

5.2.3 Mae eglwys hynod Sant Llechid, a ddyluniwyd gan Henry Kennedy, yn gyfansawdd o arddull neo-Normanaidd, o naddiad rwbel a gwenithfaen. Nid yw'n cael ei defnyddio mwyach, ond mae'r golygfeydd at yr eglwys ac oddi yno, drwy'r llwybr yw prydferth ac o ymyl Afon y Llan yn werth chweil. Yn uno golau a chysgod, mae'r adeiladwdaith rwbel ac addurniadau'r eglwys yn cyferbynnu â llechi'r cerrig beddi a'r deial haul rhestredig yng nghornel de-ddwyreiniol yr adeilad. Mae golau'r haul ar y garreg a welir drwy'r coed yw, neu drwy edrych i fyny o'r llwybr ger Afon y Llan, islaw'r eglwys, i gyd yn funudau arbennig sy'n cyfrannu'n sylweddol at gymeriad yr ardal.



**18** Golygfa o Tai Fynwent o'r fynwent (2021)



**19** Golygfa tua'r Hen Bwl;caban ffôn K6 rhestredig i'r dde.(2021)

5.2.4 Nodweddir Ffordd Llanllechid, sy'n rhedeg rhwng y fynwent a' r Hen Bwl, gan gymysgedd o derasau byr, ac anheddau mewnlenwi modern. Mae 1 a 2 Ty'n Llan heb eu rendro, gyda charreg rwbel, conglfeini a linteli a siliau llechen. Nesaf at y pâr yma, adeiladwyd anheddau un llawr modern, Bedw Arian a Llidiart y Mynydd. Mae 1 a 2 Bryn Eglwys, Siop Llan a Haulfryn yn amlwg o'r 19eg ganrif, gyda'r gwaith maen rwbel yn dal i'w weld ar yr ochrau, ond maent bellach wedi'u rendro gyda ffenestri, cynteddau a manylion eraill cyfoes.

5.2.5 Codwyd adeiladau modern ar y gornel, i'r dwyrain o'r grîn, yn wynebu Yr Hen Bwl. Mae'r Hen Bwl yn glir fel tafarn o'r 19eg ganrif, ond mae wedi'i rendro a'i newid yn helaeth gyda ffenestri a drysau newydd. Gerllaw, mae'r caban ffôn math K6 rhestredig wedi'i drosi i gadw diffibriliwr, ond fel arall heb ei altro. Nesaf at hwn mae rhes o dai'r awdurdod lleol o ganol yr 20fed ganrif, wedi'u rendro a'u gosod ychydig uwchlaw'r ffordd, gyda mur cynhaliol rwbel a lle i gerbydau dynnu i mewn. Oddi yma ceir golygfa dda tuag at chwarel y Penrhyn.

5.2.6 Erys rhes o dai teras, ar ochr ddwyreiniol Tan Fynydd, heb eu rendro ond wedi'u newid gyda drysau, ffenestri a tho newydd. Maent wedi'i hadeiladu o rwbel di-batrwm, gyda siliau a linteli modern o lechen yn gyffredinol. Dangosir y rhes hon ar fap OS 1888, ond ddim ar fapiau canol y 19eg ganrif.

5.2.7 I'r de o Tan Fynydd, Isfryn yw safle hen gapel y Methodistiaid Calfinaidd, ond cafodd hwnnw ei ail-adeiladu yn llwyr ac nid oes teimlad o'i darddiad ar ôl yn awr, heblaw pileri'r giât a'r gatiau. Ymddengys y byddai'r rhain wedi cael eu hadleoli o bwynt ar draws Tan Fynydd, fel y tybir yn sgil carreg drothwy sy'n weddill a rhan o golofn giât gerddwyr i'r gogledd. Y tu hwnt, mae Ty Capel yn dŷ ffrynt dwbl o'r 19eg ganrf mewn carreg rwbel gyda chonglfeini (mae gan hwn ffenesri uPVC modern a phortsh wedi'i rendro'n gyfoes), yna Bryn Awel drws nesa hefyd o ddiwedd y 19eg ganrif, bellach wedi'i rendro ac mae ganddo ffenestri newydd. Mae cymeriad pendant i'r ardal hon, gyda golygfeydd agored tuag at hen chwarel Bryn-hafod-y-wern y tu draw.

5.2.8 Mae'r ffordd tuag at Dan-y-Bwlch (i'r dwyrain o Rachub) yn gwau'n ddifyr rhwng Yr Hen Bwl a'r teras ar Tan Fynydd. I'r gogledd-ddwyrain o'r ffordd hon, y mae Tan Hwfa, fel y nodwyd yn gynt, sef bwthyn o gryn oed, o'r 18fed ganrif mae'n debyg. Y tu hwnt mae tŷ modern (Tan Hwfa uchaf), fymryn y tu allan i'r ardal gadwraeth.



**20** Tai teras i'r gogledd o Tan Fynydd (2011).



**21** Gatiau a phileri o'r Capel Methodistiaid Calfinaidd (adleolwyd), y trothwy carreg a'r piler yn dangos y lleoliad gwreiddiol. Ty Capel y tu hwnt. (2021).

## 5.3 Deunyddiau

5.3.1 Carreg yw'r deunydd mwyaf amlwg o hyd. Rwbel heb ei batrymu, weithiau gyda chonglfeini, sy'n nodweddu'r adeiladau heb eu rendro. Ar wahân i'r eglwys, mae agoriadau'n syml yn gyffredinol, heb eu haddurno ar wahân i ddefnyddio cerrig sylfaneol o faint addas ar gyfer linteli. Mae'r garreg ei hun yn gyfuniad o wenithfeini llwyd tywyll a golau, llechi a rhywfaint o raean a cherrig llaid. Mae'r cyfuniad hwn yn bwysig ac mae'n cyfrannu at ansawdd waliau terfyn yn arbennig.

5.3.2 Daeth rendrad yn un o'r prif ddeunyddiau. Mae'r rhan fwyaf o'r rendro wedi'i beintio'n fodern ac yn ychwanegiad diweddarch er bod gro chwipio sment hefyd.

5.3.3 Mae'r toi fel arfer o lechi, y rhan fwyaf o chwarel y Penrhyn. Nid erys unrhyw lechi cynnar, mae'r llechen bellach wedi'i hollti'n denau, ac o batrymau cytbwys.

## 5.4 Ffiniau

5.4.1 Waliau cerrig yw'r ffiniau yn gyffredinol, gyda rhai enghreifftiau o ffensys llechi. Mae'r garreg yn gymysgedd o weinthfeini, llechi a cherrig llaid. Mae gan y waliau cynharaf, fel yr un ar ffin ddeheuol y fynwent, gerrig sylweddol i ffurfio'r sail gyda cherrig llai uwchben, meini garw crwn yw'r rhain fel arfer, mae'r waliau diweddarach yn cynnwys mwy o lechen ac maent wedi'u gweithio'n drymach, fel arfer o forter yn hytrach na chael eu hadeiladu'n sych.

5.4.2 Mae'r fynwent wreiddiol wedi'i ffinio gan waliau rwbel (y rhan fwyaf â gwely morter erbyn hyn), gyda gatiau a phileri o'r 19eg ganrif yn arwain at y llwybr yw i fyny i eglwys Sant Llechid. Mae'r wal hon a'i pherthynas â'r beddi llechen yn cynnig cyferbyniad diddorol ac mae'n bwysig i gymeriad yr ardal hon. Mae'r wal yn mynd yn un o gerrig sychion wrth iddi droi i'r gorllewin i roi terfyn i'r fynwent, gan amgau'r rhannau cynnar a'r rhai o'r 1840au. Meini garw cynnar sy'n sail iddi.

5.4.3 Cafodd rhywfaint o'r cae i'r gogledd o 1 Ty'n Llan ei amgau gan ffens lechen, ddiweddar mae'n debyg, ond un sy'n gwneud cyfraniad cadarnahol i gymeriad y fynedfa. Mae ffens gynharach ar hyd rhan o'r llwybr i'r eglwys, y tu hwnt i'r llwbyr coed yw.

5.4.4 Yn anffodus daeth leylandii modern a rhywogaethau tebyg yn driniaeth reolaidd i ffiniau a hynny er anfantais i'r ardal.



**22** Manylion ar Eglwys Sant Llechid (2011).




**23** Ffensys llechen yn y fynwent (2011)

## 5.5 Nodweddion, Manylion ac Arwynebau Eraill.

5.5.1 Cerrig beddi o lechen lefn (Penrhyn fel arfer) gyda manylion cerfiedig a llythrennu cain, yn enwedig yng nghyd-destun y coed yw a'r cyferbyniad â rwbel garw'r waliau terfyn.

5.5.2 Gwnaed y giât haearn ar ymyl yr ardal gadwraeth yn lleol a daw'r giât mochyn rybedog o ddiwedd y 19eg ganrif, ac mae'r rhain yn cyfrannu at gymeriad yr ardal sydd nesaf at Afon-y-Llan.




Listed Buildings
1:2500 @ A4

**24** Adeiladau Rhestredig yn yr Ardal Gadwraeth ac yn agos ati (©Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2021 Arolwg Ordnans 100022403)

# 6.0 Asedau Hanesyddol

## 6.1 Asedau Hanesyddol Dynodedig

Mae'r asedau dynodedig canlynol (adeiladau rhestredig a henebion cofrestredig i'w gweld yn yr ardal gadwraeth (gweler Ffig 24):

6.1.1 Henebion Cofrestredig

- *ddim yn berthnasol*

6.1.2 Adeiladau Rhestredig

- *22930 Eglwys Sant Llechid*
- *22941 Deial Haul yn Eglwys Llanllechid.*
- *4149 Caban ffôn.*

6.1.3 Mae cyfres o asedau dynodedig arwyddocaol (henebion cofrestredig ac adeiladau rhestredig) o fewn 1km i'r ardal gadwraeth:

- *CN121 Caeau ac Anheddau Cynnar i'r Dwyrain o Lanllechid*
- *CN176 Casgliad Cytiau CoedcUchaf*
- *CN287 Cylchoedd Cytiau i'r Gorllewin o Gorbri*
- *3670 Coed-Uchaf*

## 6.2 Asedau Hanesyddol Annynodedig o Ddiddordeb Lleol

*Nodwyd yr asedau hanesyddol annynodedig canlynol yn yr ardal gadwraeth fel rhai o ddidodrdeb lleol arbennig:*

- *Yr Hen Bwl (yr Old Bull Inn)*
- *Fferm y Red Lion*
- *Yr Efail*
- *1 a 2 Green Cottage.*
- *Pont Llan*
- *1-2 Tyn Llan*
- *Teras ar Tan Fynnydd*
- *Waliau, giât, pileri, gatiau ac arwynebau yn gysylltiedig â'r hen Gapel MC (ar Tan Fynydd).*
- *Tŷ Capel*
- *Tai Fynwent*
- *Tan Hwfa*



**26** Deial Haul rhestredig (2021).




**27** 1 a 2 Green Cottage




Undesignated Assets of Special Local Interest
1:2500 @ A4

**28** Llanllechid, Undesignated Assets of Special Local Interest (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)




Other Designations
1:2500 @ A4

**29** Llanllechid, other designations. (© Crown copyright and database rights 2021 Ordnance Survey 100022403)

# 7.0 Ffin yr Ardal Gadwraeth.

7.1.1 Yn dilyn yr arfarniad, ni chynigiwyd unrhyw newidiadau i ffin yr ardal gadwraeth.

# 8.0 Hanesion Cudd (dichonoldeb archeolegol)

8.1.1 Mae potensial archeolegol Llanllechid yn sylweddol o ystyried y gweithgaredd cynhanes helaeth yn y cyffiniau. O fewn yr Ardal Gadwraeth, y prif ardaloedd â photensial fyddai'r ardal o amgylch yr eglwys a'r cae i'r de-ddwyrain o'r eglwys y nodwyd fod gwrthglawdd yno, o bosibl yn tarddu o'r canol oesoedd.

# 9.0 Asedau Dynodedig Eraill

## 9.1 Gorchmynion Cadw Coed

9.1.1 Nid oes gorchmynion cadw coed yn yr Ardal Gadwraeth (heblaw y warchodaeth a roddir gan yr Ardal Gadwraeth).

## 9.2 Tirwedd Hanesyddol Dynodedig

9.2.1 Mae'r pentref yn gorwedd gyda Thirwedd o Didddordeb Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru Dyffryn Ogwen(HLW(GW)10).[7]

# 10.0 Bioamrywiaeth

## 10.1 Ardal Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

10.1.1 Gorwedd Ardal Cadwraeth Llanllechid yn rhannol oddi mewn i Ardal Partneriaeth Tirwedd y Carneddau. Dyma drosolwg or cynllun:

10.1.2 Bydd y Cynllun yn diogelu treftadaeth fregus y Carneddau trwy wella dealltwriaeth a mwynhad cynyddol o dreftadaeth ddiwylliannol a naturiol yr ardal ar draws ystod eang o gymunedau, unigolion a sefydliadau. Ar

[7] https://cadwpublicapi.azurewebsites.net/reports/historiclandscape/FullReport?lang=&id=HLW%20(Gw)%2010

ddiwedd y Cynllun, bydd y dirwedd yn cael ei rheoli'n well, mewn cyflwr gwell ac yn cael ei deall yn well.


Amcanion

- Amddiffyn rhywogaethau a chynefinoedd prin, olion archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol a nodweddion tirwedd nodweddiadol
- Cadw traddodiadau, gwybodaeth ac enwau lleoedd y dirwedd yn fyw
- Annog defnydd tir cynaliadwy
- Galluogi cynulleidfa amrywiol i ddarganfod, cofnodi, diogelu a dathlu'r Carneddau trwy ddigwyddiadau, gweithgareddau, hyfforddiant, dehongli newydd a gwell mynediad
- Cynnal niferoedd yr ymwelwyr i'r ardal o fewn ffiniau cynalidwy.

## 10.2 Coed


10.2.1 Gweler 9.2 am Orchmynion Cadw Coed.

10.2.2 Gweler 4.3 am ddisgirifiad o'r coed allweddol/ardaloedd o goed yn yr ardal gadwraeth sy'n cyfrannu at ei chymeriad arbennig.



# YR AIL RAN – CYNLLUN RHEOLI'R ARDAL GADWRAETH.

## 1.0 Dadansoddiad CGCB Cryno




### CRYFDERAU

- Lleoliad ar y Llwybr Llechi.
- Gosodiad, golygfeydd a chysylltiadau i'r tirlun ehangach a Chwarel y Penrhyn.
- Golygfeydd hardd tua'r eglwys ar draws tir agored.
- Mae'r eglwys a'r fynwent yn brydferth ac yn nodedig iawn.

### GWENDIDAU

- Newid sylweddol iawn i bron pob un o'r adeiladau (ac eithrio'r eglwys) yn gryn dipyn o niwed i'r cymeriad a'r golwg hanesyddol.
- Y pentref yn dioddef gan ddiffyg cyfleusterau enbyd (er bod cyfleusterau ar gael yn Rachub gerllaw). Tafarn yr Hen Bwl wedi cau rai blynyddoedd yn ôl.

### CYFLEOEDD

- Er bod y ffaith fod yr eglwys yn segur yn fygythiad, mae hefyd yn cynnig cyfle.
- Ceisio gwella'r newidiadau i'r strwythurau hanesyddol allweddol yn y pentref, er mwyn creu canol hanesyddol mwy cydlynus.
- Dod â rhai cyfleusterau yn ôl i galon y pentref.
- Newid wedi'i rheoli a chyfleoedd ôl-osod amgylcheddol drwy newid ystyriol.
- Datblygu tai fforddiadwy ar raddfa fechan, sy'n briodol i'r ardal, i ddiwallu angen lleol (cynllun lleol Parc Cenedlaethol Eryri)

### BYGYTHION

- Eglwys Sant Llechid yn segur bellach ac angen defnydd newydd sensitif.
- Newid parhaus, colli golygfeydd gan ddatblygiadau yn tresmasu.
- Newidiadau amhriodol yn parhau i gael eu gwneud i adeiladau.

# 2.0 Deall y Materion

## 2.1 Cyflwr yr Ardal Gadwraeth

2.1.1 Mae Llanllechid wedi dioddef gan newidiadau helaeth i'r rhan fwyaf o'i adeiladau, ac eithrio Eglwys Sant Llechid a Thai Fynwent, fodd bynnag, ni fu nemor ddim newid yng ngosodiad y pentref, ei safle yn y tirlun a'i gynllun. Ychydig iawn o ddatblygu cyfoes a welwyd.

2.1.2 Mae'r rhan fwyaf o adeiladau wedi'u meddiannu neu mewn defnydd buddiol ond mae rhai adeiladau arwyddocaol sydd heb eu meddiannu, neu'n cael eu tanddefnyddio. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Mae Eglwys Sant Llechid wedi'i rhestru ac mae'n adeilad pwysig. Heb gael ei defnyddio ers tipyn o amser, mae'n dal i fod mewn cyflwr rhesymol yn allanol, ond mae'n debyg o ddirywio os na chaiff ddefnydd hirdymor priodol cyn bo hir.

2.1.3 Mae rhai materion sylweddol sy'n cael effaith andwyol ar ddiddordeb arbennig yr ardal gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Cael gwared ar y ffenestri a'r drysau o waith coed hanesyddol a rhoi rhai cyfoes, uPCV fel arfer, yn eu lle.
- Defnyddio rendrad a phaent modern yn allanol.
- Datblygiadau neu estyniadau amhriodol neu o ansawdd gwael.
- Colli ffiniau traddodiadol, a phlannu modern megis leylandii
- Gormod o gerbydau, parcio a thraffig.

2.1.4 Mae enghreifftiau penodol yn cynnwys:

- Newid y ffenestri a'r drysau a rhoi rendrad modern ar yr Hen Bwl.
- Addasiadau sylweddol, ffenestri modern a chynteddau i adeiladau sy'n wynebu'r eglwys, megis Haulfryn a Siop Llan.
- Adeiladu adeilad newydd yn Mhont Llan, sydd wedi cael gwared ar olion yr olwyn ddŵr.



**29** Gosodwyd cynteddau modern, rendro a ffenestri uPVC er anfantias yr ardal gadwraeth.



**30** Mae leylandii a gwrychoedd modern yn creu teimlad mwy swbwrbaidd.

## 2.2 Adeiladau mewn Perygl

2.2.1 Nid yw eglwys Sant Llechid yn lle addoliad bellach. Er ei bod yn dal mewn cyflwr rhesymol (o edrych arni o'r tu allan), mae dod o hyd i ddefnydd newydd a buddiol yn hollbwysig.

## 2.3 Golwg Cyffredinol ar y Dadansoddiad CGCB.

2.3.1 Gwnaed dadansoddiad CGCB neu SWOT i Ardal Gadwraeth Llanllechid. Defnyddir hwn i ganfod y problemau, ond hefyd rhai o gyfleoedd a chryfderau cynhenid yr ardal gadwraeth. Mae hyn wedyn yn sail i greu'r cynigion rheoli cadarnhaol sy'n dilyn.

2.3.2 Mae'r dadansoddiad CGCB yn dangos nifer o bwyntiau allweddol i weithredu arnynt, er mwyn adeiladu ar gryfderau a chyfleoedd yr Ardal Gadwraeth. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Dod o hyd i ddefnydd newydd i Eglwys Sant Llechid. Gallai hyn fod yn ateb i'r diffyg cyfleusterau cymunedol yn y pentref, ond byddai'r perygl o'i throsi'n amhriodol yn breswylfeydd neu lety gwyliau yn niwedidio'r gosodiad pwysig a'r fynwent.
- Ceisio gwella ymddangosiad rhai o'r adeiladau allweddol eraill, e.e.Yr Hen Bwl.
- Ceisio annog newid ffenestri a rendrad modern am rai gyda manylion a gwedd mwy priodol.
- Ochr yn ochr â'r uchod, cefnogi ailosod manylion adeiladu traddodiadol ac uwchraddio cynaliadwy i gael gwell perfformiad amgylcheddol.
- Gwella gosodiad y tirlun, drwy annog ffiniau addas a gwella'r ardal o amgylch grîn bychan y pentref.
- Ystyried gwell cysylltiadau i gerddwyr a chyflwyno dehongli, yn arbennig y fynwent ac Afon-y-Llan.

2.3.3 Mae'r CGCB yn dangos nifer o wendidau a bygythion, a nodir fel pwyntiau gweithredu, mae'r rhain yn cynnwys:



**31** Eglwys Sant Llechid, Potensial am ddefnydd cymunedol newydd?



**32** Mae digonedd o gyfleoedd i ddarparu dehongli a gwella dealltwriaeth o hanes hir Llanllechid.

- Ennyn diddordeb cadarnhaol i wrthdroi addasiadau niweidiol i adeiladau a nodweddion allweddol.
- Posibilrwydd o wella cyfleusterau'r pentref, o bosibl yn gysylltiedig â dod o hyd i ddefnydd newydd i Eglwys Sant Llechid.
- Sicrhau fod mannau gleision a golygfeydd allweddol yn cael eu gwarchod drwy ymgysylltiad lleol ac wrth ystyried ceisiadau i ddatblygu.

# 3.0 Rheolaeth Gadarnhaol.

## 3.1 Newidiadau i Ffiniau.

3.1.1 Ni chynigir unrhyw newidiadau i ffin yr Ardal Gadwraeth.

## 3.2 Gwarchodaeth Polisi Lleol a Chenedlaethol

3.2.1 Ceir cyd-destun y fframwaith deddfwriaethol i Ardaloedd Cadwraeth yn y ddogfen gyflwyniadol ***Cyflwyno a Throsolwg Polisi Cynllunio*** ***WEBLINK.*** Mae'r ddogfen hon hefyd yn rhoi canllawiau a pholisïau cyffredinol.

3.2.2 Nid oes argymhellion am gyfarwyddyd erthygl 4, nac adeiladau i'w hasesu ar gyfer eu rhestru'n genedlaethol.

## 3.3 Gwella Diddordeb Arbennig yr Ardal Gadwraeth

3.3.1 Byddai mynd i'r afael â rhai o'r problemau (gweler 2.0) a'r gwendidau a'r bygythiadau i'r Ardal Gadwraeth yn creu potensial i wella ei diddordeb arbennig yn sylweddol. Gellir gwneud hyn drwy bwerau cynllunio neu ganllawiau estynedig.

3.3.2 Mae'r problemau a'r cyfleoedd penodol yn cynnwys:

- Ystyried briff dylunio i sicrhau fod Eglwys Sant Llechid yn dod yn ôl i ddefnydd buddiol.
- Gwella'r cysylltiadau drwodd i Afon-y-Llan, a chyflwyno dehongli lle bo modd i wella dealltwriaeth am dreftadaeth Llanllechid. Gallai hyn gynnwys naratif ar y tirlun cynhanes helaeth a'r chwareli, sy'n gallu cael eu gweld yn glir o fannau ffafriol yn y pentref.

- Ceisio rheoli datblygiadau  mewnlenwol a datblygiadau o ansawdd amhriodol yng nghyffiniau'r ardal gadwraeth.
- Annog ailosod manylion saerwaith mwy addas i adeiladau sy'n arwyddocaol yn lleol, yn lle'r gosodiadau uPVC modern.

3.3.3 Cynigir fod **canllaw dylunio** yn cael ei ddarparu er mwyn deall ac annog newidiadau priodol yn yr ardal gadwraeth, dylai hwn gynnwys:

- Manylion priodol ar ffenestri, drysau a saernïaeth newydd.
- Graddfa, crynswth a deunydd adeiladau ac estyniadau newydd.
- Parcio, arwynebau, plannu ac ystyriaethau ecolegol.

3.3.4 Defnyddio'r offerynnau uchod a thrwy'r ymgynghoriad (gweler isod), codi ymwybyddiaeth a phroffil yr Ardal Gadwraeth ac annog datblygu a newid priodol. I gynnwys:

- Ymwybyddiaeth gyda pherchnogion a chymuned Llanllechid.
- Codi ymwybyddiaeth a (gyda chefnogaeth yn y dyfodol) sgiliau i gontractwyr a chrefftwyr lleol.

## 3.4 Cynaliadwyedd ac Uwchraddio Amgylcheddol

3.4.1 Ceir canllawiau ar y dull cywir o gyflwyno gwelliannau effeithlonrwydd ynni, a'r caniatâd angenrheidiol yn Ardal Gadwraeth Eryri yn y ddogfen: ***Cyngor Ynghylch Camau Effeithlonrwydd Ynni mewn Ardaloedd Cadwraeth - Canllaw Cynllunio ac Ymarferol WEBLINK***

3.4.2 Mae gan Lanllechid gyfleoedd naturiol i greu micro-bŵer. Gallai'r rhain gael eu datblygu yn fanteisiol, gydag Ynni Ogwen Cyf sy'n bodoli'n barod, a allai o bosibl gefnogi cynlluniau o'r fath er budd y gymuned.

3.4.3 Dylid cefnogi cynlluniau cynhyrchu ynni cynaliadwy a'u hannog pan nad ydynt yn cael effaith andwyol ar gymeriad arbennig neu fioamrywiaeth yr ardal gadwraeth ac os ydynt yn cyd-fynd â Chynllun Datblygu Lleol Eryri.

## 3.5 Bioamrywiaeth

3.5.1 Mae coed yn hollbwysig i'r bioamrywiaeth a'r pwysigrwydd esthetig. Caiff amrywiaeth o goed eu gwarchod gan orchmynion cadw (gweler 8.3). Nodwyd fod gan goed eraill bwysigrwydd yn yr ardal gadwraeth (gweler 4.3).

3.5.2 Ystyrir y dylai'r coed yn y fynwent, yn bennaf y coed yw (yn y llwybr) gael eu hystyried am orchmynion cadw coed.

3.5.3 Mae cryn botensial i wella bioamrywiaeth yn yr ardal gadwraeth, gallai enghreifftiau o weithredoedd gynnwys:

- Gosod blychau adar ac ystlumod a datblygu cynllun rheoli blychau.
- Gall defnydd priodol o doeau glaswellt a nodweddion adeiledig eraill mewn estyniadau neu adeiladau newydd, lle'n briodol i'r dreftadaeth adeiledig, wella cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Rheoli a gwella gwrychoedd.
- Gwarchod coed yn ystod gwaith adeiladu
- Peidio ag ymyrryd er mwyn gadael i goed aeddfedu
- Cadw'r pren marw sy'n sefyll a chreu carnau coed marw ar gyfer trychfilod a bywyd gwyllt arall.

3.5.4 Sicrhau fod datblygiadau'n cael eu llywio'n sensitif gan nodweddion cymeriad pendant yr Ardal Gadwraeth a'u bod yn ystyried tystiolaeth arall o nodweddion hanesyddol a thirlun yr ardal o gwmpas.

3.5.5 Sicrhau y bydd cynigion datblygu yn gwella buddiannau bioamrywiaeth a geoamrywiaeth.

3.5.6 Gweithio gyda phartneriaid yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i ddatblygu a gweithredu prosiectau i gyfoethogi'r tirwedd a chreu a gwella cynefinoedd o werth cadwraeth natur.

3.5.7 Annog datblygiadau i gynnwys mesurau i gyfrannu'n gadarnhaol at fioamrywiaeth gyffredinol yr ardal.

3.5.8 Gwella'r isadeiledd gwyrdd mewn modd sy'n darparu ar gyfer anghenion ynni'r ardal heb effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth na chymeriad yr ardal gadwraeth.

# 4.0 Ymgynghoriad

4.1.1 Ymgynghorwyd ar gynllun Arfarnu a Rheoli'r Ardal Gadwraeth gyda'r canlynol:

- Cyngor Cymuned Llanllechid (13/1/2022)
- Partneriaeth Ogwen
- Arolwg arlein a ddosbarthwyd trwy Gyngor Cymuned Llanllechid a Phartneriaeth Ogwen

# Atodiadau:

## Atodiad A - Ffynonellau

Roedd y prif ffynonellau gwybodaeth cyhoeddedig a ddefnyddiwyd i gynhyrchu'r Arfarniad hwn fel a ganlyn:


Fenton, R. (1810), *Tours in Wales (1804–1813)* (ailgyhoeddwyd gan y Cambrian Archaeological Association in 1917)

Gwyn, D (2006), *Gwynedd: Inheriting a Revolution* (Phillimore, Chichester) Hall, W. (1881),

Gwyn, D *Welsh Slate: the Archaeology and History of an Industry (RCAHMW 2015).*

Ymddiriedolaeth Archeolegol Gwynedd (GAT) adroddiad rhif 918 (Evans R & Robertson, A)*, Arfarniad Drafft Ardal Gadwraeth Llanllechid*, 2011.

Hall, E. Hyde (1811), *A Description of Caernarvonshire (1809–11) (argraffiad 1952).*

Haslam, R., Orbach, J. and Voelcker, A. (2009) *The Buildings of Wales: Gwynedd* (Yale University Press, London)

Hughes H & North H. L. *'The Old Churches of Snowdonia' (1924).*

Lewis, S. (1849), *A Topographical Dictionary of Wales* (London)

Pennant, T. (1781), A *Tour in Wales* (London) (1773-76), *Accessed via: https://www.library.wales/discover/digital-gallery/pictures/a-tour-in-wales*

Parkinson, A.J. (1989) *Pen-y-bryn Additional notes. Detailed notes for the Royal Commission on Ancient and Historical Monuments in Wales* NA/CA/89/118 (i)

Roscoe, T. (1853), *Wanderings and Excursions in North Wales* (London)

Smith, B. & Neville George, T. *British Regional Geology – North Wales (HMSO) 1961.*

https://cadw.gov.wales/sites/default/files/2019-05/North%20Wales%20Snowdonia%20National%20Park_EN.pdf

http://datingoldwelshhouses.co.uk/library/Archreport/Penybryn_Aber_Report.pdf